**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol**

**This response was submitted to the Equality and Social Justice Committee consultation on Women's experiences in the criminal justice system**

**WECJS 11**
**Ymateb gan: Comisiynydd Plant Cymru | Response from: Children's Commissioner for Wales**

---

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Dyddiad / Date: 20.09.2022

Pwnc / Subject: Profiadau Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol

Gwybodaeth gefndirol am Gomisiynydd Plant Cymru.

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cynnwys pob maes o rymoedd datganoledig y Senedd sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw'r Confensiwn, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sail i'r holl waith llunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyladwy' i'r Confensiwn.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd

1. Mae fy Swyddfa wedi bod yn ymwneud yn agos â chyflawni Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, ac mae gennyf ddiddordeb mawr yn y gwaith hwn. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad sydd wedi'i roi yn y Glasbrint Menywod i ganolbwyntio ar bwysigrwydd perthnasoedd teulu/plant i fenywod sy'n troseddu. Croesawaf y ffaith bod anghenion ac effaith ymddygiad troseddol rhieni ar blant wedi'u cydnabod yn y Glasbrint, ac rwy'n gefnogol o'r ymdrechion i ystyried plant yn fwy amlwg mewn penderfyniadau a gwaith cynllunio strategol yn ymwneud â throseddu gan fenywod.

2. Mae carcharu rhiant yn ddigwyddiad bywyd arwyddocaol ac ansefydlog i blant. Gwyddom hefyd fod troseddwyr sy'n cynnal cysylltiadau teuluol cryf yn llai tebygol o aildroseddu. Felly, mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n ystyried y goblygiadau y gallai cynnal cysylltiadau eu cael ar blant.

3. Mae gan blant a phobl ifanc hawliau i fywyd teuluol, a gall penderfyniadau sy'n cael eu gwneud wrth ymateb i achosion o ymddygiad troseddol gan oedolion effeithio ar yr hawliau hynny. Mae Erthygl 9 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) yn nodi bod gan blant hawl i fyw gyda'u teulu os mai dyna sydd orau iddyn nhw, ac mae Erthygl 10 yn nodi bod gan blant hawl i gadw mewn cysylltiad gyda'u rhieni. Mae Erthygl 3: Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i blant bob amser, yn un o Egwyddorion Cyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n chwarae rhan arwyddocaol yn y gwaith o wireddu'r holl hawliau eraill a nodir yn y Confensiwn. Dylai hyn fod yn sail i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â phlant, gan gynnwys penderfyniadau a allai gael effaith ar fywyd teuluol. Er fy mod yn croesawu'r ymrwymiad i gydnabod cydgysylltiad a gwerth perthnasoedd teuluol, mae rôl i bob gwasanaeth fyfyrio ar sut y gallant gydbwyso hawliau plant a risgiau i blant wrth gynnal cysylltiadau teuluol. I rai plant, bydd cynnal y cysylltiadau hynny'n hollbwysig, ond i blant eraill, gallai hyn fod yn groes i'w lles pennaf. Mae hefyd yn hollbwysig, pan fydd ymddygiad troseddol rhieni yn effeithio ar blentyn, bod asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu hysbysu er mwyn eu galluogi i gefnogi plant yn briodol gyda hynny. Felly, byddwn yn annog y gwasanaethau hynny sy'n ymwneud â diogelu plant, a gwasanaethau cyfiawnder, i gydweithio ar y materion hyn ac i roi anghenion y plentyn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

4. Rwyf wedi croesawu'r Fframwaith Polisi Diogelu 'Think Child' a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf sydd â'r nod o gynnwys plant a phobl ifanc yn well ym mhenderfyniadau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf sy'n effeithio arnynt. Mae'r canllawiau hyn yn ein hatgoffa bod gwaith Swyddogion Prawf yn cael effaith ar rai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed, ac yn cynnig arweiniad ymarferol ar sut y gall Swyddogion gynnal eu 'sylw dyledus' i blant er mwyn eu hamddiffyn nhw a'u hawliau.

## Datblygiad o ran y Canolfannau Adsefydlu Menywod / y Ganolfan i Fenywod yn Abertawe

5. Mae fy swyddfa wedi cael rhai trafodaethau rhagarweiniol gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ar ddatblygu cynigion y Ganolfan Breswyl i Fenywod, ac a ddylai'r ganolfan fod yn lleoliad lle bydd plant yn ymweld.

6. Deallaf fod y penderfyniad hwn yn dal i gael ei ystyried. Teimlaf yn gryf fod yn rhaid i unrhyw benderfyniad mewn perthynas â phlant yn ymweld/yn aros yn y ganolfan gael ei ystyried drwy Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i sicrhau bod holl hawliau plant yn cael eu hystyried yn drylwyr. Rhaid i unrhyw gynnig sy'n ymwneud â chynnwys plant ystyried a chydbwyso goblygiadau hawliau plant a'r pryderon diogelu a allai godi.

7. Mae fy Swyddfa'n ymwybodol o waith allgymorth rhagorol sy'n digwydd yng Ngharchar y Parc rhwng tadau a'u plant, y gellid ei rannu fel arferion gorau gyda'r Ganolfan i Fenywod. Yn ogystal, mae fy nhîm cyfranogiad wedi bod yn gweithio'n agos gyda Charchardai ledled Cymru i ddarparu hyfforddiant hawliau plant i dadau, i gefnogi ymgysylltiad cadarnhaol â phlant pan fydd ymweliadau'n digwydd. Mae fy Swyddfa'n awyddus i helpu i rannu arferion gorau ac i gefnogi'r Ganolfan er mwyn ymgorffori dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer unrhyw ymwneud gan blant.

**Argaeledd darpariaeth a chymorth dalfa priodol ar gyfer gwahanol grwpiau o fenywod gan gynnwys merched o dan 18 oed, menywod anabl, menywod sydd â phroblemau iechyd meddwl, menywod o leiafrifoedd ethnig, menywod sydd wedi profi trais rhywiol neu gam-drin domestig, menywod sydd â phroblemau alcohol neu gyffuriau a menywod sy'n siarad Cymraeg**

8. Mae niferoedd Cymru o blant a phobl ifanc sydd angen trefniadau dalfa yn isel iawn, sy'n dyst i'r gwaith dargyfeiriol rhagorol sy'n digwydd ar draws Timau Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Dim ond 13% o'r plant sy'n cael rhybudd neu ddedfryd ar draws Cymru a Lloegr sy'n ferched.[1]

9. Er fy mod yn croesawu'r ffaith mai niferoedd isel iawn yr ydym yn delio â nhw o ran merched yn troseddu (bu hyn yn 2/3 ar unrhyw un adeg yn y gorffennol), mae'r ddarpariaeth o gefnogaeth, a'r opsiynau ar gyfer lleoliadau dalfa, yn gyfyngedig iawn. Yng Nghymru, Cartref Plant Diogel Hillside yw'r unig ddarpariaeth sy'n gallu cymryd merched sydd ar orchymyn cadw/remandio. Gall hyn olygu bod merched yn cael eu lleoli gryn bellter i ffwrdd o'u cartrefi a'u rhwydweithiau cymorth, er enghraifft yn Sefydliad Troseddau Ieuenctid Wetherby ger Leeds. Gall lleoli plant mor bell o gartref fod yn her ar gyfer adsefydlu llwyddiannus. Mae diffyg darpariaeth ar gyfer merched yng Nghymru yn golygu bod merched yn cael eu lleoli yn Lloegr yn aml, lle mae dirywiad amlwg yn y safonau mewn lleoliadau dalfa diogel, sydd wedi arwain at gau peth darpariaeth yn ystod y misoedd diwethaf.[2]

10. Mae diffyg llety lles diogel ac addas hefyd yn cael effaith enfawr ar allu merched i ailsefydlu'n llwyddiannus ar ôl bod yn y ddalfa. Yn aml, does unman addas i blant fynd. Mae fy Swyddfa wedi bod yn lobïo ers tro am newidiadau i'r maes hwn ac yn cydnabod y rôl hollbwysig sydd gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod llety diogel, therapiwtig yn darparu ar gyfer anghenion mwyaf cymhleth pobl ifanc.[3] Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu peth darpariaeth ledled Cymru, ynghyd ag ymrwymiad yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i

---

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1054236/Youth_Justice_Statistics_2020-21.pdf

[2] https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/Children-in-custody-secure-training-centres-and-secure-schools-Summary.pdf

[3] Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant - Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)

ddatblygu Cynllun Peilot Cartref Bach yn y gogledd — fodd bynnag, nid oes yr un o'r darpariaethau arfaethedig hyn yn weithredol eto er bod dirfawr angen amdanynt.

11. Mae hefyd yn bryder bod merched sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy tebygol o gael eu troseddoli na'u cyfoedion ac yn cael eu gorgynrychioli yn y systemau cyfiawnder troseddol ac ieuenctid. Amlygodd ymchwil gan y Ganolfan Cyfiawnder Plant a Theuluoedd ar amharu ar y llwybrau rhwng gofal a'r ddalfa i ferched a menywod[4] fod merched yn aml mewn risg o gael eu gor-droseddoli am fân droseddau, tra bod yr angen am gymorth i fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol yn ymwneud â thrawma ac esgeulustod yn mynd heb ei ddiwallu.

12. Rwy'n falch bod Cymru wedi cyhoeddi ei Phrotocol yn ddiweddar i leihau faint mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu troseddoli'n ddiangen. Mae hyn yn rhywbeth y galwodd fy rhagflaenydd amdano ac mae'n ddatblygiad rwy'n ei groesawu'n fawr, sy'n nodi cyd-uchelgeisiau ar gyfer ymateb amlasiantaethol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae yna ffordd i fynd eto i sicrhau bod y gwaith hwn yn gwreiddio ac yn cael effaith ystyrlon ar sicrhau nad yw plant mewn gofal yn cael eu gor-droseddoli am ymddygiad heriol. Mae fy Swyddfa'n awyddus iawn i sicrhau bod y Protocol yn cael ei gynnal yng Nghymru, ac mae fy Swyddogion yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o ddatblygu canllawiau hyfforddi ac adnoddau ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal er mwyn helpu i wreiddio'r Protocol.

Cyflwynwyd gan:



**Rocio Cifuentes, MBE**

**Comisiynydd Plant Cymru**

[4] https://www.cfj-lancaster.org.uk/files/pdfs/care-custody-policy-briefing.pdf